# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg



Y Ddau Leidr Groeshoeliwyd

# Cerdyn Darganfod Pobl y Pasg

## Y Ddau Leidr Groeshoeliwyd

**Gwybodaeth Gefndirol**

- Croeshoeliad oedd y gosb ddefnyddiai'r Rhufeiniaid am amrywiaeth o droseddau, yn arbennig gwrthryfelwyr gwleidyddol, môr-ladron a chaethweision.
- Bwriad croeshoeliad oedd achosi marwolaeth oedd yn boenus ac araf.
- Roedd croeshoeliad yn ddienyddiad cyhoeddus, felly byddai torfeydd yn ymgynnull i wylio.

**Beth Ddigwyddodd**

- Mae'r Beibl yn dweud fod troseddwyr eraill wedi eu croeshoelio gyda Iesu, un ar yr ochr dde iddo a'r llall ar y chwith.
- Ymunodd un o'r troseddwyr gyda'r milwyr a'r dorf yn gwatwar a sarhau Iesu.
- Roedd y troseddwr arall yn cydnabod eu bod nhw'n cael y gosb roedden nhw'n ei haeddu, ond fod Iesu wedi gwneud dim byd o'i le, ac meddai, "Iesu, cofia amdana i pan fyddi di'n teyrnasu." (Luc 23:42, beibl.net)
- Wrth iddo gydnabod ei ddiffygion a'i fethiannau ei hun, gellid gweld geiriau'r troseddwr yn fynegiant o edifeirwch.
- Ymatebodd Iesu mewn cariad, a sicrhau'r dyn y byddai gydag e yn y nefoedd y diwrnod hwnnw.

**Diffiniad**

- Edifeirwch: Edifeirwch ydy dangos eich bod wir yn sori am wneud rhyw ddrwg.

**Beth Allwn ei Ddysgu**

- Mae Cristnogion yn credu nad yw hi byth yn rhy hwyr i ofyn i Dduw am faddeuant. Yn eiliadau olaf ei fywyd dyma'r troseddwr yn cyfaddef ei fod wedi gwneud drwg ac yn cydnabod mai Iesu oedd y Meseia. Dyma Iesu yn addo lle yn y nefoedd iddo.

**Ystyried**

- Allet ti faddau i rywun am wneud rhywbeth o'i le pan nad ydyn nhw wir yn sori?
- Yn dy farn di, sut oedd meddyliau a theimladau'r ddau droseddwr yr un fath, a sut oedden nhw'n wahanol?
- Mae'r Beibl yn dweud fod Duw yn maddau i bobl, beth bynnag maen nhw wedi ei wneud a pha mor hwyr bynnag maen nhw'n gofyn am faddeuant. Sut mae hynny'n gwneud i ti deimlo?